MA GENEDLAETHOL MEWN ADDYSG
NATIONAL MA EDUCATION
CYMRU | WALES

# 1. MA CENEDLAETHOL MEWN ADDYSG (CYMRU)

## POLISI CENEDLAETHOL AR GYFER CYDNABOD DYSGU BLAENOROL

### Cydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol

Mae Cydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol (y cyfeirir ato'n aml fel RPL) yn galluogi Prifysgolion i eithrio modiwlau neu feysydd pwnc y mae ymgeiswyr eisoes 'wedi'u cwblhau', naill ai drwy addysg ffurfiol neu drwy brofiad a datblygiad proffesiynol. Felly ni fydd yn ofynnol i ymgeiswyr llwyddiannus ail-wneud neu gwblhau dysgu y cydnabyddir eu bod eisoes wedi'i gyflawni.

Mae'r MA Cenedlaethol mewn Addysg (Cymru) wedi'i chynllunio i gydnabod y bydd llawer o fyfyrwyr eisoes yn meddu ar gymwysterau a/neu brofiad proffesiynol sy'n golygu y gallant ddangos eu bod wedi llwyddo ym modiwlau Blwyddyn 1 y rhaglen, er mwyn sicrhau na fyddant yn ailadrodd yr un cynnwys. **Ni fydd Cydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol yn berthnasol i fodiwlau Blwyddyn 2 neu'r Traethawd Hir y mae'n rhaid i'r holl fyfyrwyr eu cwblhau.**

Mae'r Polisi yn darparu fframwaith ar gyfer y Sefydliadau sy'n Cymryd Rhan ac mae'n berthnasol i'r MA Cenedlaethol mewn Addysg (Cymru) yn unig. **Mewn achosion lle mae'r polisi yn gwrthdaro â pholisïau ac ymagweddau lleol presennol, rhoddir blaenoriaeth i'r Polisi Cenedlaethol hwn.**

### Cymhwysedd i Gyflwyno Cais am Gydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol

Rhaid i'r holl ymgeiswyr fodloni **meini prawf mynediad academaidd** yr MA Cenedlaethol mewn Addysg.

Rhaid bod gan ymgeiswyr sy'n cyflwyno cais am 60 credyd o Gydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol ar sail cymwysterau feddu ar TAR (fel arfer a gyflawnwyd yn ystod y pum mlynedd diwethaf).

Rhaid i ymgeiswyr sy'n cyflwyno cais am hyd at 60 credyd o Gydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol ar sail datblygiad a/neu brofiad proffesiynol ddangos tystiolaeth eu bod yn bodloni'r Deilliannau Dysgu ar gyfer pob modiwl, fel y nodir isod.

Bydd ymgeiswyr a chanddynt lai na 60 o gredydau ar gyfer Cydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol yn dilyn modiwl(au) perthnasol sy'n gyfwerth â'r balans credydau sy'n weddill ym Mlwyddyn 1 y rhaglen.

Er mwyn cadarnhau cymhwysedd, yn y lle cyntaf dylai ymgeiswyr posib gysylltu â Swyddfa Derbyn Myfyrwyr berthnasol y Brifysgol am ragor o wybodaeth.

### Y Broses Cyflwyno Cais am Gydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol

Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw cyflwyno tystiolaeth i ategu ei gais am Gydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol. Caiff ceisiadau am Gydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol eu hasesu ar sail unigol.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr ddangos eu bod wedi cyflawni profiad dysgu perthnasol fel yr amlinellir isod.

Ymagweddau at Gydnabod Dysgu Blaenorol:

1. Mae gan ymgeiswyr gredydau neu gymhwyster cymeradwy (e.e. TAR) (Cydnabyddiaeth o Ddysgu *Tystysgrifedig* Blaenorol (RPcL) neu Drosglwyddo Credydau).
2. Mae gan ymgeiswyr dystiolaeth effeithiol o brofiad a datblygiad proffesiynol sylweddol, helaeth a pherthnasol. (Cydnabyddiaeth o Ddysgu *Profiadol* Blaenorol (RPeL)).

Hefyd gall ymgeiswyr ddefnyddio cyfuniad o ddulliau 1 a 2 uchod.

**Cydnabyddiaeth o Ddysgu Tystysgrifedig Blaenorol (neu Drosglwyddo Credydau)**

Caniateir i ddarpar fyfyrwyr a chanddynt Dystysgrif Ôl-raddedig mewn Addysg Uwch (TAR AGA) gyflwyno cais am gydnabyddiaeth o ddysgu blaenorol ac eithriad o hyd at 60 o gredydau ym Mlwyddyn 1 y Rhaglen Genedlaethol. Bydd yn ofynnol i fyfyrwyr gyflwyno eu trawsgrifiad er mwyn cael eu hystyried ar gyfer Cydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol. Hefyd bydd yn ofynnol i ymgeiswyr a enillodd TAR cyn 2019 gyflwyno eu Deilliannau Dysgu Statws Athro Cymwys gyda'u trawsgrifiad swyddogol, er mwyn i ddysgu blaenorol gael ei fapio yn erbyn y modiwlau ar gyfer yr MA Cenedlaethol mewn Addysg (Cymru).

Hefyd mae modd i ymgeiswyr nad oes ganddynt y 60 o gredydau cyflawn ar gyfer Cydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol ar gyfer Blwyddyn 1 yn ei chyfanrwydd gyflwyno cais am gydnabyddiaeth o'u dysgu a'u profiad proffesiynol ar gyfer y balans credydau sy'n weddill (Gweler 'Cydnabyddiaeth o Ddysgu Profiadol Blaenorol', isod). Os byddant yn derbyn cymeradwyaeth, bydd y myfyrwyr yn dechrau ar y rhaglen ym Mlwyddyn 2.

Bydd angen i ymgeiswyr a chanddynt lai na 60 o gredydau cyffredinol o Ddysgu Blaenorol cydnabyddedig ymgymryd â modiwlau perthnasol ym Mlwyddyn 1 sy'n dod i gyfanswm o 60 o gredydau pan gânt eu cyfuno â Dysgu Blaenorol cydnabyddedig.

**Cydnabyddiaeth o Ddysgu *Profiadol* Blaenorol**

Anogir ymgeiswyr sydd am gyflwyno cais i ystyried eu datblygiad proffesiynol a/neu ymarfer proffesiynol i gysylltu â'r Swyddfa Derbyn Myfyrwyr berthnasol yn y Brifysgol am ragor o wybodaeth yn y lle cyntaf.

Rhaid i ymgeiswyr gwblhau Ffurflen Gais am Gydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol yr MA Cenedlaethol mewn Addysg (Cymru), lle mae angen iddynt ddangos sut a phryd maent wedi cyflawni Deiliannau Dysgu Arfaethedig y Modiwlau trwy eu hymarfer a'u datblygiad proffesiynol. Hefyd mae'n rhaid i ymgeiswyr gyflwyno tystiolaeth briodol, gan roi manylion y cymwysterau a/neu'r credydau a gyflawnwyd, DPP a/neu brofiad (ceir rhagor o arweiniad ar yr hyn i'w gynnwys yn yr enghreifftiau ar ddiwedd y ddogfen hon).

Bydd yr Arweinydd Derbyn Academaidd lleol ar gyfer yr MA Cenedlaethol mewn Addysg (Cymru) a/neu rôl briodol arall ym mhob sefydliad partner yn gwneud asesiad cychwynnol i bennu a oes gan yr ymgeisydd ddigon o gymwysterau perthnasol a/neu brofiad i gyflwyno cais i'w ystyried i dderbyn Cydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol. Bydd yn darparu cyngor ac arweiniad i'r ymgeisydd (o fewn ffiniau penodol) ynghylch ei gais a'i bortffolio o dystiolaeth

ategol. Bydd yr Arweinydd Derbyn Academaidd lleol neu'r deiliad rôl arall yn sicrhau bod ymgeiswyr yn llwyr ymwybodol o'r gofynion i'w hystyried ar gyfer Cydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol cyn cyflwyno cais a'u bod yn deall na fydd cyflwyno cais yn gwarantu y caiff eithriad ei gymeradwyo.

Ar ôl i'r cais gael ei gyflwyno, bydd yr Arweinydd Derbyn Academaidd lleol ar gyfer yr MA Cenedlaethol mewn Addysg (Cymru) yn penderfynu a yw'r dystiolaeth a ddarparwyd yn dangos bod yr ymgeisydd wedi bodloni Deilliannau Dysgu Arfaethedig y modiwlau perthnasol y cyflwynwyd cais am eithriad ar eu cyfer ac yn gwneud argymhelliad am Gydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol i gorff perthnasol y Sefydliad Partner (e.e. y Panel Matriciwleiddio). Ni fydd y cais a'r portffolio tystiolaeth yn asesiad ffurfiol ac ni chânt eu marcio fel asesiad safonol, ond mae'n bosib y cânt eu dychwelyd i'r ymgeisydd i'w datblygu ymhellach mewn achosion lle mae'r corff penderfynu o'r farn nad ydynt yn bodloni'n llawn y safonau gofynnol.

Mewn achosion lle nad yw ymgeiswyr wedi darparu tystiolaeth ddigonol eu bod wedi cyflawni'r Deiliannau Dysgu, mae'n bosib y bydd angen iddynt ymgymryd â'r modiwl(au) perthnasol yn llawn a thalu ffioedd dysgu perthnasol y rhaglen.

**Panel Cenedlaethol ar gyfer Adolygu Cydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol**

Er mwyn sicrhau cysondeb y broses a llunio penderfyniadau, sefydlwyd Panel Cenedlaethol ar gyfer Adolygu Cydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol er mwyn adolygu a chymeradwyo'r holl benderfyniadau ar geisiadau RPL ar gyfer yr MA Cenedlaethol mewn Addysg (Cymru) (a llwybrau cysylltiedig). Bydd y Panel Cenedlaethol hwn ar gyfer Adolygu Cydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol yn gweithio ar ran yr HOLL sefydliadau addysg uwch partner a bydd yn disodli prosesau cymeradwyo lleol ar gyfer y rhaglen hon yn unig.

**Prosesu Ceisiadau am Gydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol**

Oherwydd natur y broses, gallai ceisiadau am Gydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol gymryd mwy o amser i'w prosesu na cheisiadau safonol, a rhoddir gwybod i ymgeiswyr am yr amserlenni a'r dyddiadau cau perthnasol ar y cyswllt cyntaf.

**Cadarnhad o Gais am Gydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol**

Rhaid i ymgeiswyr am Gydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol gyflwyno eu cais a derbyn cadarnhad bod eu cais wedi bod yn llwyddiannus cyn y caniateir iddynt gofrestru ar y modiwlau priodol.

**Ffioedd a Thaliadau**

Ni chodir tâl am Gydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol ar gyfer yr MA Cenedlaethol mewn Addysg (Cymru).

MA GENEDLAETHOL MEWN ADDYSG
NATIONAL MA EDUCATION
CYMRU | WALES

**Modiwlau y gellir eu hystyried yn erbyn Cydnabyddiaeth o Addysgu Blaenorol**

**Addysgeg ac Ymarfer (20 Credyd)**

| Canlyniadau Dysgu a Fwriedir y Modiwl |
|---|
| Erbyn diwedd y modiwl, dylai'r myfyriwr allu:<br>0. Arddangos yn feirniadol ddealltwriaeth o bwysigrwydd cefnogi a gwella cyflawniad yr holl ddysgwyr yn eu gofal.<br>1. Gwerthuso'n feirniadol effeithiolrwydd ystod o strategaethau dysgu ac addysgu drwy ddefnyddio tystiolaeth o'r ystafell ddosbarth a thystiolaeth ymchwil.<br>2. Dewis a chymhwyso'r strategaethau dysgu ac addysgu mwyaf priodol er mwyn gwella cyrhaeddiad grŵp o ddysgwyr.<br>3. Ymgysylltu â sgyrsiau beirniadol am addysgeg ac ymarfer a thystiolaeth a rhannu eu hymarfer proffesiynol. |

**Arfer wedi'i Lywio gan Dystiolaeth (20 Credyd)**

| Canlyniadau Dysgu a Fwriedir y Modiwl |
|---|
| Erbyn diwedd y modiwl, dylai'r myfyriwr allu:<br>0. Dadansoddi'n feirniadol a syntheseiddio tystiolaeth empirig berthnasol, gan gynnwys llenyddiaeth addysg a dogfennau polisi.<br>1. Dadansoddi'n feirniadol a syntheseiddio data profiad ysgol lleol a chenedlaethol er mwyn cael mewnwelediad i gyflawniadau, cynnydd ac ysgogiad plant yn y broses ddysgu, er mwyn llywio gwneud penderfyniadau.<br>2. Dangos gwybodaeth am y cwricwlwm, addysgeg, asesu ac ymarfer cynhwysol sy'n briodol i'w Maes Dysgu a Phrofiad penodol.<br>3. Myfyrio'n feirniadol ar y modd y gall yr amgylchedd dysgu a'r adnoddau gael eu strwythuro er mwyn cefnogi dysgu effeithiol.<br>4. Dadansoddi'n feirniadol a gwerthuso eu gwerthoedd a'u credoau eu hunain o ran dysgu ac addysgu er mwyn datblygu fel ymarferydd myfyriol. |

**Arfer Cydweithredol a Phroffesiynol (20 Credyd)**

| Canlyniadau Dysgu a Fwriedir y Modiwl |
|---|
| Erbyn diwedd y modiwl, dylai'r myfyriwr allu:<br>1. Dadansoddi'n feirniadol a myfyrio ar ysgolion fel sefydliadau dysgu.<br>2. Gwerthuso'n feirniadol ddiwylliant dysgu sy'n hyrwyddo gwelliant parhaus i gefnogi'r cwricwlwm.<br>3. Cymhwyso modelau damcaniaethol i gasglu a dadansoddi data'n feirniadol o ran gwella ysgolion.<br>4. Myfyrio'n feirniadol ar nodweddion ymarfer cydweithredol a phroffesiynol.<br>5. Gwerthuso'n feirniadol ddulliau ar gyfer codi safonau a gwella addysgeg a fydd yn gwella ansawdd y dysgu a'r addysgu ar draws sefydliad. |

**ENGHRAIFFT**

Bydd ymgeisydd yn dewis cyflwyno cais am Gydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol am 40 o gredydau ar Lefel 7 TAR, 20 o gredydau eraill ar sail eu profiad a'u datblygiad

proffesiynol, yn erbyn Modiwlau Blwyddyn 1 (wedi'u halinio â'r Deiliannau Dysgu Arfaethedig y rhoddir manylion amdanynt ar y trawsgrifiad TAR)

Bydd yr ymgeisydd yn cwblhau'r ffurflen ymateb ar gyfer y modiwl y maent am ei ddefnyddio i ddangos ei brofiad proffesiynol i ddangos y deilliannau, a gallant gynnwys unrhyw rai o'r elfennau canlynol fel tystiolaeth:

1. Rolau presennol / blaenorol
2. Cyfrifoldebau
3. Cofnod o Ddysgu Proffesiynol
4. Tystiolaeth o Reoli Perfformiad
5. Tystiolaeth o Brosiectau Ymholi
6. Cysylltiadau â'r 5 Safon Broffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth mewn Ysgolion

https://hwb.gov.wales/api/storage/19bc948b-8a3f-41e0-944a-7bf2cadf7d18/professional-standards-for-teaching-and-leadership-interactive-pdf-for-pc.pdf

(awgrymir 1000-1500 o eiriau).

**Addysgeg ac Ymarfer**

| **Canlyniadau Dysgu a Fwriedir y Modiwl** | |
|---|---|
| Erbyn diwedd y modiwl, dylai'r myfyriwr allu: | Myfyrio a Thystiolaeth yr Ymgeisydd |
| 1. Arddangos yn feirniadol ddealltwriaeth o bwysigrwydd cefnogi a gwella cyflawniad yr holl ddysgwyr yn eu gofal. | |
| 2. Gwerthuso'n feirniadol effeithiolrwydd ystod o strategaethau dysgu ac addysgu drwy ddefnyddio tystiolaeth o'r ystafell ddosbarth a thystiolaeth ymchwil. | |
| 3. Dewis a chymhwyso'r strategaethau dysgu ac addysgu mwyaf priodol er mwyn gwella cyrhaeddiad grŵp o ddysgwyr. | |
| 4. Ymgysylltu â sgyrsiau beirniadol am addysgeg ac ymarfer a thystiolaeth a rhannu eu hymarfer proffesiynol. | |